Ysgol Gymunedol Peniel

Polisi Adborth Athrawon a Chyflwyno Gwaith

Mae marcio a rhoi adborth ar waith disgyblion yn rhan hanfodol o'n gweithdrefn asesu barhaol ac yn hanfodol er mwyn gwella safonau a pherfformiad disgyblion. Dylid darparu adborth adeiladol i bob plentyn, gyda ffocws ar lwyddiant a datblygiad gwelliant a fesurir yn ôl meini prawf llwyddiant y dasg. Dylai hefyd ddatblygu'r disgyblion i fedru adlewyrchu ar eu gwaith eu hun a gwella eu perfformiad. Mae marcio ac adborth effeithiol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni prosesau asesu ar gyfer dysgu o fewn yr ysgol.

Nod

Rydym yn marcio a rhoi adborth i waith plant er mwyn:

- cynnal deialog rhwng yr athro/athrawes a'r disgybl am waith y disgybl,
- dangos ein bod yn gwerthfawrogi eu gwaith a'u hymdrechion, a'u hannog nhw i wneud yr un peth,
- rhoi darlun clir iddynt o ba mor bell maen nhw wedi cyrraedd gyda'u dysgu,
- dangos iddyn nhw beth yw'r ffordd ymlaen er mwyn gwneud mwy o gynnydd,
- hybu hunan-barch a chymhelliad trwy roi clod ac anogaeth,
- darparu cyfleoedd i hunan werthuso
- adfyfyrio a herio

Dylai marcio ac adborth:

- fod yn rhesymol i athrawon,
- ganolbwyntio ar nod a meini prawf llwyddiant y wers benodol,
- gynnwys pob oedolyn o fewn y dosbarth,
- fod yn sbardun i ddisgyblion fedru gwella eu gwaith, a dylai athrawon sicrhau amser a chyfle iddynt ddarllen y sylwadau ac ymateb iddynt,
- gynnig canmoliaeth a chydnabyddiaeth,
- gefnogi dysgwyr gan gau'r bwlch rhwng beth maent yn gallu gwneud a beth rydym eisiau iddynt wneud,
- ymateb i anghenion yr unigolyn,
- gael ei wneud gan yr athro ym mhresenoldeb y disgybl, lle bo hynny'n bosib, fel bod y disgybl yn derbyn clod neu'n cael eglurhad am waith nad yw wedi deall yn iawn,
- effeithio ar hunan-barch ac ysgogiad, gan ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol i ddechrau,
- fod yn ddealladwy i'r disgyblion,
- fod yn gyson ar draws yr ysgol, ac o fewn cyfnodau allweddol,
- ddilyn côd marcio yr ysgol **SPLAT / SAP**
- annog a dysgu disgyblion i hunan-asesu a gwella'u gwaith eu hun lle bo'n briodol.

Strategaethau

Asesu Crynodol
Defnyddir y math yma o farcio gyda thasgau caėdig fel profion tablau neu brofion sillafu. Fel arfer, defnyddir smotyn neu dic. Lle'n bosib, dylai'r plant farcio gwaith eu hunain neu eu cyfoedion neu dylid marcio fel dosbarth/grŵp o dan oruwchwyliaeth yr athro.

Côd Marcio
Dylid dilyn cod marcio Bro Myrddin ar gyfer cywiro rhai o'r gwallau.

S	Sillafu	_____
A	Atalnodi	O
P	Paragraffu	//

yn arwain at:

S	Sillafu	____
P	Paragraffu	//

bl. 5 a 6

L	Rhywbeth o'i le	
A	Atalnodi	O

bl. 5 a 6

T	Treiglo	△

CS - Os oes angen nodi ar waith y disgyblion os ydynt wedi cael unrhyw cymorth, defnyddio'r symbolau yma.
C – cymorth oedolyn
A – annibynnol
CA – cymorth adnoddau

Asesu Ffurfiannol
Lle bo'r dasg yn un agored neu ar lafar, dylai'r adborth adlewyrchu meini prawf y dasg honno. Dylai'r pwyslais fod ar lwyddiant ac ar y ffordd ymlaen er mwyn gwella, wedi eu mesur yn erbyn nod a meini prawf llwyddiant y wers. Fel rhan o'r adborth ar lafar ac yn ystod y wers, dylai sylwadau'r athro ffocysu yn bennaf ar lwyddiant y plentyn i gyrraedd nod a meini prawf llwyddiant y wers bob tro.

Yn ogystal, gellir cael "saib sydyn" fel asesiad cyflym yn ystod gwers, sy'n rhoi cyfle i fyfyrio a thrafod cynnydd. Asesiad llafar bydd hwn a gellir atgoffa plant am anghenion ychwanegol neu gyffredinol, fel tanlinellu pennawd er enghraifft, heb ymyrryd ar weddill y dosbarth na thynnu ffocws oddi ar brif amcanion dysgu'r dasg.

Asesu safonol

- Bydd athrawon yn marcio gwaith y disgyblion mewn beiro goch.
- Bydd disgyblion yn hunan-asesu, gwirio a gwella eu gwaith eu hunain mewn beiro gwyrdd.
- Bydd marcio manwl yn cael ei wneud ar gyfer pob tasg ysgrifennu estynedig a thasgau swmpus/addas eraill e.e. diwedd tasg gwyddonol neu (uned fathemateg)
- Yn y Cyfnod Sylfaen, nodir os yw'r gwaith wedi cael ei gwblhau'n annibynnol neu gyda chymorth.
- Os bydd disgybl wedi ateb y meini prawf llwyddiant i gyd yn llawn, rhoddir ffordd ymlaen / her i'r disgybl er mwyn eu hymestyn ymhellach.
- Defnyddir smotyn coch i nodi bod ateb yn anghywir.
- Ceir sesiwn 'gwirio a gwella' er mwyn rhoi amser penodol i blant ymateb i sylwadau'r athro a gwella'u gwaith yn wythnosol.
- Anogir athrawon i farcio a rhoi adborth i'r disgyblion yn ystod y wers a gyda'r plant mor aml ag sy'n bosib.
- Caiff adborth llafar ei roi i ddisgyblion sydd wedi lliwio goleuadau traffig yn goch.

Asesu Dysgu Cyfunol

Petai'r ysgol yn wynebu cyfnod clo unwaith eto yn sgil COVID yna bydd:

- Athrawon yn dilyn y polisi hyn wrth farcio gwaith y dysgwyr
- Bydd y CS yn defnyddio platffrom J2E er mwyn cyflwyno'r gwaith a'i farcio
- Bydd CA2 yn defnyddio Assignments ar Google Classrooms er mwyn rhoi adborth cyflawn.
- Bydd staff yn rhoi ystyriaeth lawn i:
    - Roi cyfeiriad ar SAP/ SPLAT
    - Cyfeirio at y MPLL
    - Sicrhau fod yr adborth yn dangos y ffordd ymlaen.
    - Rhoi cyfle i ddisgyblion ail ddrafftio gwaith

Hunan-asesu

- Darperir cyfleoedd hunan asesu yn y mwyafrif o wersi. Bydd y disgyblion yn defnyddio lliwiau goleuadau traffig yn y gwersi hynny i hunan-asesu dealltwriaeth (Cyfnod Sylfaen – wynebau emojis / CA2 – goleuadau traffig/bodiau)
- Darperir cyfleoedd i'r disgyblion farcio eu gwaith eu hunain fel dosbarth pan fo'r dasg yn addas.

Asesu Cyfoedion

- Darperir cyfleoedd i asesu cyfoedion mewn ymateb i'r meini prawf llwyddiant yn ôl y galw ac yn ôl addasrwydd y dasg.
- Dylai pob disgybl ddangos parch tuag at waith eu cyfoedion tra'n asesu h.y. llawysgrifen daclus/darllenadwy

Disgyblion yn ymateb i adborth

- Rhoddir amser yn yr wythnos i sesiynau "gwirio a gwella" pan caiff y

disgyblion gyfle penodol i ymateb i adborth athrawon a gwella eu gwaith yn seiliedig ar hynny.
- Defnyddia'r disgyblion feiro gwyrdd i wirio a gwella eu gwaith.
- Bydd cyfleoedd i'r disgyblion ychwanegu at eu gwaith neu wella rhan ohono trwy ail-ddrafftio paragraff neu ail-ddrafftio darn cyfan o waith yn unol a natur y dasg. Bydd pen melyn yn cael ei ddefnddio i amlygu yr hyn sydd angen ei ail-ddrafftio.
- Bydd cynorthwywyr dosbarth yn rhan o'r asesu yn eu dosbarthiadau hefyd – yn rhoi adborth i grwpiau llai neu unigolion.

Mae'r egwyddorion sy'n sail i'n polisi marcio fel a ganlyn:

- Dylai marcio fod yn deg ac yn gyson gan y staff i gyd.
- Dylai'r marcio gael ei wneud cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, a lle mae'n briodol, dylid marcio'r gwaith gyda'r plentyn yn bresennol.
- Rhaid sicrhau bod y côd marcio wedi ei arddangos yn y dosbarth fel bod y plant yn ymwybodol ohonynt.
- Rhoddir sylwadau cadarnhaol ac adeiladol gan athrawon, gan dynnu hefyd sylw at agweddau lle ceir anawsterau a nodi sut i ddatblygu ymhellach.
- Trafodir y nod a'r meini prawf gyda'r plant ar ddechrau'r wers fel eu bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt.
- Dylid darparu cyfleoedd penodol i'r disgyblion gael amser i ymateb i'r sylwadau a roddwyd iddynt am eu gwaith.
- Darperir adborth yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn ôl addasrwydd y dasg.
- Ar adegau dylid rhoi cyfle i ddisgyblion i farcio a rhoi adborth ar waith ei gilydd.
- Nodir y ffordd ymlaen i'r disgyblion wrth farcio gwaith estynedig, er mwyn iddynt wybod sut i wella eu gwaith a chodi eu safon.

Cyflwyniad Gwaith

Mae'r egwyddorion yma'n sail i'n polisi llawysgrifen fel a ganlyn:

- Dylid gosod dyddiad a theilt i'r rhan fwyaf o ddarnau gwaith
- Dylid rhan uchaf yr ysgol ddefnyddio pren mesur er mwyn talinellu'r uchod.
- Dylid CS ddangos datblygiad o'r Derbyn i Flwyddyn 2 yn eu llawysgrifen i fod yn glwm erbyn diwedd CS, gyda CA2 yn cyflwyno eu gwaith mewn llaw ysgrifen glwm.
- Dylid pob darn o waith ei gyflwyno'n daclus â pharch.